**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
Cofnodion cyfarfod hybrid y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 17 Hydref 2023 am 5.00pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei ffrydio'n fyw ac mae manylion i'w gweld yma.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol:**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd G Stacey | Y Cynghorydd S Bradwick |
| Y Cynghorydd L Ellis | Y Cynghorydd S Powderhill |
| Y Cynghorydd A O Rogers | Y Cynghorydd J Turner |
| Y Cynghorydd T Williams | |

**Dyma'r Swyddogion oedd yn bresennol:**

Ms R Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr M Owen, Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol
Ms K Trilloe, Rheolwr Diogelu Iechyd a Thrwyddedu
Mr O Williams, Uwch Gyfreithiwr – Materion Ymgyfreitha
Mr C Booker, Swyddog Gorfodi Trwyddedau
Ms L Warton, Swyddog Trwyddedu (Arsylwi)

**28 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G Holmes, K Johnson a M Powell.

**29 DATGAN BUDDIANT**

**PENDERFYNWYD –** Yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau'r Cyngor, cafodd y datganiad o fuddiant personol canlynol ei wneud ynglŷn â'r agenda:-

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Bradwick mewn perthynas ag eitem 4 ar yr agenda, "Rydw i'n adnabod cyflogwr un o'r ymgeiswyr felly fydda i ddim yn pleidleisio ar yr eitem yma".

**30 DEDDF HAWLIAU DYNOL A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n trafod y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

## 31 COFNODION

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Medi 2023 yn rhai cywir.

## 32 TRAFOD TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A GYHOEDDWYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 21.08.23 - 01.10.23

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion trwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod rhwng 21 Awst 2023 a 1 Hydref 2023 i'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad.

## 33 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr eitem nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

## 34 TRAFOD Y CEISIADAU CANLYNOL AR GYFER TRWYDDEDU A/NEU GOFRESTRU:

1) Rhoddodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion y cais canlynol ar gyfer rhoi Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

   Yn unol â'r gweithdrefnau wedi'u mabwysiadu, cafodd Mr JH ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

   Ar ôl trafod yr adroddiad a'r dystiolaeth ger eu bron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor wrthod y cais.

2) Rhoddodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion y cais canlynol ar gyfer adolygu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

   Yn unol â'r gweithdrefnau wedi'u mabwysiadu, cafodd Mr SAK ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am adolygu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

   Ar ôl trafod yr adroddiad a'r dystiolaeth ger eu bron,

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor adael i'r drwydded barhau, gyda rhybudd mewn perthynas â gweithgaredd yn y dyfodol.

## 35 CRYNODEB GORFODI (GAN GYNNWYS DATA APELIADAU/ERLYNIADAU) AR GYFER Y CYFNOD: 21.08.23 - 01.10.23

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio'r adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod rhwng 21 Awst 2023 a 1 Hydref 2023.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

## 36 CRYNODEB O'R TRWYDDEDAU A GYHOEDDWYD O DAN DDARPARIAETH AWDURDOD DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 21.08.23 - 01.10.23

Rhannodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio adroddiad â'r Aelodau'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod rhwng 21 Awst 2023 a 1 Hydref 2023.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.19pm**

**Y Cynghorydd A Fox**
**Cadeirydd.**